IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 18 TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Kelloway a/ac Murphy |

## 25 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 26 : CAIS AM GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - DICKENS TEA ROOM

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Jane Simpson, DPS, Cyfarwyddwr<br>Hayden Price, Trwyddedai, Cyfarwyddwr |
| Pobl Eraill â Diddordeb: | Piers Warne, TLT Solicitors<br>Richard Williams, Park Estates |

Y Cais

Cafwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan JHP Catering Limited mewn perthynas â Dickens Tea Room, 48 Heol Siarl, Caerdydd.

Cyflwynwyd y cais i amrywio canlynol:

1. Ymestyn yr ardal trwyddedig i gefn yr eiddo fel y dangosir yn gliriach ar y cynllun a gyflwynir.

2. Lleihau'r awr derfynol ar gyfer yr holl weithgareddau i fod yn unol â'r "oriau craidd" ar gyfer bwytai fel y nodir yn y Polisi Effaith Gronnus sy'n rhan o Bolisi Datganiad Trwyddedu Dinas Caerdydd ar gyfer 2016-2021, gyda'r awr derfynol yn 01:00 ar gyfer gweithgareddau trwyddedig.
   02:00 awr ar hyn o bryd.

Caiff yr ardal eistedd y tu allan ei chau erbyn 21:00 bob dydd.

3. Oriau agor i ddechrau am 07:00 i ddarparu gwasanaeth brecwast, yna lleihau i gau am 01:30.

4. Addasu / dileu rhai o'r amodau a nodir yn y trwydded safle gwreiddiol nad ydynt yn gymwys/perthnasol mwyach, yn dilyn ymgynghoriad â Heddlu De Cymru, ac fel y nodir mewn manylder isod.

   1. (4). "Gelir gwneud darpariaeth bob amser ar gyfer adloniant cyhoeddus.." Dylid dileu hwn gan nad ydyw'n berthnasol mwyach.

   2. (2) Disodli'r geiriad agoriadol "Staff drws" am "Staff drws cofrestredig" a chynyddu nifer y bobl i 60.

2. (3) “Bydd Deiliad Trwydded Personol yn bresennol bob amser y mae’r safle ar agor i’r cyhoedd”

Gan mai prif ddiben y busnes yw caffi / ystafell de yn ystod y dydd, awgrymir y dylid addasu’r geiriad i:

“Bydd deiliad trwydded personol yn bresennol ar gyfer digwyddiadau preifat a drefnwyd ymlaen llaw”

2. (6) “Ymrestru gwasanaethau cwmni diogelwch cofrestredig”

Ei ddileu gan ei fod wedi’i gynnwys yn 2.(2) uchod.

2. (9) “Ni chyflwynir unrhyw gynigion diodydd ar y safle”

Ei ddileu gan ei fod wedi’i ddyblygu yn un o’r prif amodau gorfodol sydd yn y trwydded safleoedd presennol.

2. 2. (10) "Bydd staff drws yn cynorthwyo’r holll gwsmeriaid presennol"

Ei ddileu gan ei fod yn anymarferol ac ni ellir diffinio “cynorthwyo” yn iawn.

Gan roi ystyriaeth i’r amodau a ndoir yn y drwydded safle presennol a’r diwygiadau a nodir uchod, cynigir y mesurau ychwanegol canlynol:

1. Mae o leiaf 70% o'r ardal gyhoeddus yn cynnwys byrddau a chadeiriau
2. Caiff yr holl brydau wrth y byrddau eu bwyta gyda chyllyll a ffyrc iawn
3. Mae gwerthu alcohol i’w yfer ar y safle yn ategol i archebu bwyd.

Amodau Gorfodol

Dileu’r amodau gorfodol sy’n cyfeirio at yr amodau sydd wedi’u mewnosod sy’n ofynnol dan Ddeddf Trwyddedu 1954 nad yw’n bodoli bellach.

<u>Sylwadau Parti â Diddordeb</u>

Cyfeiriodd Piers Warne at yr Is-bwyllgor. Cafodd aelodau wybod fod ei lythyr ar 14 Tachwedd 2016 yn nodi eu sylwadau ar y cais hwn. Nododd Mr Warne rai gwrthwynebiadau rhagarweiniol gan gynyrchiolwyr cyfreithiol yr ymgeisydd a arweiniodd at fwy o gwestiynau. Er nad oedd gan Park Estates unrhyw wrthwynebiad i weithredu ystafell de, credid fod y cais yn awgrymu newid o ran natur y safle, gyda chynnydd o ran capasiti a natur y digwyddiadau i’w cynnal. Roedd Mr Warne o’r farn pe bai digwyddiadau’n cael eu cynnal yn y safle yna byddai’n disgwyl gweld amodau sy’n cynnal yr amcanion trwyddedu yn ystod digwyddiadau o’r fath.

Cafodd aelodau wybod na chynigiwyd unrhyw amodau a fyddai'n rheoli’r nifer o ddigwyddiadau i'w cynnal, y math o ddigwyddiadau, amlder digwyddiadau. Roedd hyn yn ffurfio’r sail i’r gwrthwynebiad a gafwyd gan Park Estates. Roedd Mr Warne hefyd o’r farn bod yr ail-eiriad o’r amodau o ran staff drws yn gwneud yr amod yn

annilys oherwydd nid oes angen staff drws oni bai bod 60 o bobl yn bresennol a 60 fyddai capasiti'r lleoliad. Byddai hyn o bosibl yn tanseilo'r amcanion trwyddedu.

Rhoddodd Mr Warne wybod fod tudalen 3 o'r llythyr ar 14 Tachwedd 2016 yn rhestru nifer o bryderon. Gwahoddodd yr Is-bwyllgor i ofyn i'r cais ddelio â'r pryderon hynny. Atgoffodd yr Is-bwyllgor hefyd fod y Cornerstone wedi cael trwydded yn ddiweddar gyda 27 amod cytunedig gyda golwg ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn ystod digwyddiadau.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, rhoddodd Mr Warne wybod fod Park Estates yn berchen ar nifer o eiddo preswyl gerllaw'r safle. Roedd pryderon gan breswylwyr wedi'u trosglwyddo'n uniongyrchol. Codwyd y gwrthwynebiad ar sail atal niwsans cyhoeddus. Roedd tenantiaid wedi codi pryderon fod safleoedd eraill a weithredir gan yr ymgeisydd wedi achosi aflonyddwch gan gerddoriaeth a gan bobl yn cyrraedd a gadael y safle.

Nododd aelodau fod rhaid i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ar sail tystiolaeth ac ni chafwyd unrhyw sylwadau gan Heddlu De Cymru na Rheoli Llygredd yn gysylltiedig â'r cais hwn.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Cyflwynodd Jane Simpson y cais. Cafodd aelodau wybod fod y gwrthwynebiad a gafwyd gan Park Estates wedi codi pryderon yn gysylltiedig â rheoli bar gerllaw o'r enw The Eagle, a oedd yn cael ei weithredu gan yr ymgeisydd. Roedd nifer o gwynion o ran niwsans sŵn wedi'u hadrodd yn y gorffennol ond nid oedd unrhyw un i'r cwynion hyn wedi'u cadarnhau. Nododd Ms Simpson nad oedd y busnes yn dymuno achosi unrhyw broblemau i breswylwyr lleol a chytunwyd y byddai'r gweithwyr yn gweithio â phreswylwyr i ymdrin ag unrhyw bryderon.

Cafodd aelodau wybod y byddai'r safle yn gweithredu fel ystafell de gydol y dydd. Byddai'r ystafell de yn cau am 1900 bob dydd ac yna byddai'r lleoliad yn cael ei ddefnyddio i gynnal nifer o ddigwyddiadau preifat bach, yn arlwyo ar gyfer hyd at 55 o bobl. Ni fyddai'r lleoliad yn cynnwys llawr dawnsio na cherddoriaeth uchel. Nid oedd Ms Simpson yn ystyried bod angen amod ar gyfer staff diogelwch. Byddai pob digwyddiad yn cael ei ragarchebu a'i asesu o ran risg. Ni fyddai'r lleoliad ar agor i'r cyhoedd.

Nododd Hayden Price fod The Eagle wedi bod yn masnachu am 5 mlynedd. Mae'n far bach gyda chapasiti bach. Nid oedd llawr dawnsio yno a dim ond cerddoriaeth gefndirol oedd yn cael ei chwarae. Darperir caraoce yn achlysurol ond mae hyn yn gorffen am 2300. Ar nosweithiau Gwener a Sadwrn caiff y safle ei weithredu fel bar aelodau preifat a'i reoli yn effeithiol iawn.

Rhoddodd Mr Price wybod i aelodau bod y safle wedi cael ei aflonyddu'n barhaus gan un preswylydd sy'n byw gerllaw. Cafwyd cwynion o ran sŵn yn y stryd ond nid oedd y sŵn yn gysylltiedig â gweithrediad y safle ac nid oedd sail i'r cwynion. Nid oedd Mr Price yn deall pam bod cwynion yn cael eu gwneud. Roedd wedi ceisio ymdrin â'r mater gyda'r unigolyn cysylltiedig ond mae'r person hwnnw yn gwrthod ymgysylltu ag ef.

Cyn gwneud y cais gerbron yr Is-bwyllgor, roedd Mr Price wedi ymgynghori â swyddogion o Heddlu De Cymru ac o Dîm Rheoli Llygredd y Cyngor.

Gofynnodd Mr Warne pa fesurau oedd yn eu lle i leihau sŵn o Ystafelloedd De Dickens. Rhoddodd Ms Simpson wybod bod angen mynd trwy set ddwbl o ddrysau i gael i mewn ac allan o'r safe. Cafodd pob ffenestr ei disodli yn ddiweddar gydag unedau gwydr dwbl. Nododd Ms Simpson fod yr Ystafell De wedi'i lleoli yng nghefn y safle ac ei bod hi'n ei chael hi'n anodd derbyn y byddai preswylwyr sy'n byw gyferbyn â ffrynt yr adeilad yn cael eu heffeithio mewn unrhyw ffordd.

Byddai'r digwyddiadau a gaiff eu cynnal yn cael eu cynnig fel cyfleuster i'r cwsmeriaid gynnal digwyddiadau preifat – byddai 70% o'r safle yn cynnwys byrddau a chadeiriau. Byddai'r safle yn cael ei hunan-reoli yn ystod digwyddiadau. Byddai mynediad trwy wahoddiad yn unig ac ni fyddai caniatâd i aelodau'r cyhoedd.

Nododd Ms Simpson y byddai awr derfynol o 12 canol nos ar gyfer gwerthu alcohol gydag amser cau o 0030 yn ddigonol. Cynigiodd Ms Simpson addasu'r cais i adlewyrchu hyn.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais.

27 : COFRESTRU LOTERI CYMDEITHAS FACH

PENDERFYNWYD – Bod y cais canlynol i ddiddymu'r Cofrestriadau Loteri Cymdeithas Fach gan nad oeddynt wedi talu'r ffi flynyddol i'w pennu fel a ganlyn:

Tiger Bay Brawlers – wedi'i ddiddymu
Nystagmus Network – wedi'i ildio